# Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru

Adolygiad o'r cynnydd a diweddariad 2018



Paratowyd gan Fforwm Gwiwerod Cymru

# Cynnwys

1. Cefndir ........ 3
2. Ysgogwyr ar gyfer gweithredu ........ 4
3. Rheoli cadwraeth y wiwer goch ........ 5
4. Prif safleoedd y wiwer goch ar gyfer gweithredu cadwraethol ........ 6
5. Cynnydd tuag at gyflawni amcanion a thargedau 2009 ........ 8
6. Adolygiad o weithrediad y cynllun diogelu ........ 10
7. Amcanion ar gyfer diogelu gwiwerod coch wedi'u diweddaru ........ 12
8. Camau gweithredu diwygiedig ar gyfer diogelu'r wiwer goch ........ 12
9. Llywodraethu ........ 14
**Atodiad 1** Ysgogwyr gweithredu i ddiogelu poblogaethau'r wiwer goch yng Nghymru ........ 15
**Atodiad 2** Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru – cynnydd yn erbyn camau gweithredu 2009 ........ 17

Mae Fforwm Gwiwerod Cymru yn cynnwys grwpiau statudol, grwpiau anstatudol a grwpiau gwiwerod lleol, a'i nod yw galluogi diogelu'r wiwer goch yn effeithiol, a rheoli gwiwerod llwyd yng Nghymru.

Er mwyn cael rhagor o fanylion gweler: http://naturalresourceswales.gov.uk/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/uk-protected-species/red-and-grey-squirrels/?lang=cy

Cyhoeddwyd fis Tachwedd 2018

# Cefndir

Ar un adeg, roedd gwiwerod coch yn helaeth ledled Cymru, ond yn yr un modd â gweddill y DU, mae poblogaethau wedi dirywio'n sylweddol o ganlyniad i'r wiwer lwyd o Ogledd America, sydd wedi cael ei rhyddhau ac wedi lledaenu. Er mwyn cydnabod yr angen am gamau wedi'u targedu a strategol, cafodd Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru ei gyhoeddi yn 2009[1].

Roedd y cynllun yn amlinellu'r amcanion cadwraeth ar gyfer diogelu poblogaethau gwiwerod coch yng Nghymru a'r camau gweithredu a oedd eu hangen i gyflawni'r amcanion hynny. Roedd y cynllun hefyd yn nodi Ynys Môn, Coedwig Clocaenog a'r rhwydwaith o fforestydd yn Nyffryn Tywi yng nghanolbarth Cymru fel prif safleoedd ar gyfer gweithredu i ddiogelu'r wiwer goch (gweler Ffigur 1).

Ers iddo gael ei gyhoeddi, mae llawer o gynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni amcanion y cynllun. Fodd bynnag, mae gofyniad parhaus i ddiogelu gwiwerod coch yng Nghymru o hyd, a chytunodd Fforwm Gwiwerod Cymru fod angen adolygu'r cynnydd a diwygio'r camau gweithredu i sicrhau bod yr ymdrech i'w diogelu'n parhau i ganolbwyntio ar y meysydd cywir.

Bu newidiadau hefyd yn y fframwaith polisi ar gyfer camau gweithredu a datblygiadau i'r mathau o gymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer tirfeddianwyr trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Nod yr adolygiad hwn yw:

- asesu'r cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion ar gyfer diogelu'r wiwer goch yng nghynllun 2009
- adolygu'r gwaith o weithredu'r camau gweithredu
- nodi amcanion wedi'u diweddaru a gosod set o gamau gweithredu diwygiedig
- diweddaru'r ysgogwyr ar gyfer gweithredu

Nid yw'r adolygiad hwn yw bwriadu ailgynhyrchu'r wybodaeth gefndirol a gyflwynwyd yng nghynllun gwarchod 2009, ac felly dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r cynllun gwreiddiol[1].

Nod Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd Llywodraeth Cymru yw datblygu dull integredig ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd yng Nghymru, a bodloni'r rhwymedigaethau o dan Reoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynnol (gweler isod ac Atodiad 1). Mae amcanion y Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd yn ceisio lleihau effaith gwiwerod llwyd ar boblogaethau gwiwerod coch ac ar goetiroedd. Mae Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru yn cefnogi amcanion y Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd, ac er ei fod yn canolbwyntio ar wiwerod coch, bydd yn arwain at fuddion ehangach ar gyfer coetiroedd

[1] Fforwm Gwiwerod Cymru (2009), Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru. Y Comisiwn Coedwigaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor, y DU. https://cdn.naturalresources.wales/media/2857/cynllun-diogelu-r-wiwer-goch-yng-nghymru.pdf?mode=pad&rnd=131255969220000000

## 2. Ysgogwyr ar gyfer gweithredu

Mae'r angen i sicrhau poblogaethau cydnerth o wiwerod coch brodorol yng Nghymru yn parhau oherwydd y bygythiad parhaus mae poblogaethau brodorol yn ei wynebu. Fodd bynnag, ers cyhoeddi'r cynllun yn 2009 bu ysgogwyr deddfwriaethol a pholisi newydd sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd gweithredu parhaus:

- **Deddf yr Amgylchedd 2016 a Pholisi Adnoddau Naturiol**

  Mae Deddf yr Amgylchedd yn amlinellu dull Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a chyflawni canlyniadau gwirioneddol ar gyfer yr amgylchedd, y bobl, yr economi a chymunedau. Mae Adran 7 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o organebau byw sydd o arwyddocâd allweddol i fioamrywiaeth yng Nghymru. Cynhwysir y wiwer goch ar y rhestr Adran 7 dros dro.

- **Cynllun Adfer Natur Cymru 2015**

  Nod y Cynllun Adfer Natur yw 'Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, oherwydd ei gwerth cynhenid, ac i sicrhau buddion parhaus i'r gymdeithas.'

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

  Nod y Ddeddf hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru.

- **Rheoliad yr UE (UE) Rhif 1143/2014 ar Atal a Rheoli Cyflwyniad a Lledaeniad Rhywogaethau Goresgynnol Estron**

  Mae'r rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol llunio rhestr o rywogaethau goresgynnol estron sy'n peri pryder i'r Undeb, ac i aelod-wladwriaethau roi mesurau rheoli ar waith ar gyfer gwaredu, rheoli neu atal rhywogaethau sydd ar y rhestr.

- **Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd**

  Mae'r Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd yn ceisio dull mwy integredig ac effeithiol ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd yng Nghymru, i leihau'r effaith ar boblogaethau gwiwerod coch, ac ecosystemau coed a choetir a'r gwasanaethau maent yn eu darparu.

Gweler Atodiad 1 ar gyfer rhagor o fanylion ynglŷn â pherthnasedd y Deddfau a'r cynlluniau hyn i Gynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru.

# 3. Rheoli cadwraeth y wiwer goch

Yn fras, mae egwyddorion rheoli cadwraeth y wiwer goch yn parhau i fod yr un peth a'r rhai a roddwyd yng Nghynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru 2009. Mae'r ffocws yn parhau i fod ar reoli gwiwerod llwyd a chael gwared ar y cystadlu a'r perygl o glefydau'n lledaenu, ynghyd â rheoli cynefinoedd i sicrhau bod cymysgedd priodol o rywogaethau o goed a chysylltedd rhwng cynefinoedd.

## Rheoli cynefinoedd

Mae'r argymhellion ar gyfer rheoli cynefinoedd yng nghynllun 2009 yn parhau i fod yn berthnasol, ond mae presenoldeb clefyd *Phytophthora ramorum* wedi bod yn ffactor sydd wedi arwain at gwympo llarwydd ledled Cymru, a bydd yn parhau i fod yn ffactor. Mae llarwydd yn ffynhonnell bwyd bwysig ac yn darparu cysylltedd coedol ar gyfer gwiwerod coch, a gallai colli'r cynefin allweddol hwn gael effaith arbennig ar y prif safleoedd yng Nghoedwig Clocaenog ac yng nghanolbarth Cymru.

Mae datgoedwigo er mwyn adfer cynefinoedd eraill, megis mawn dwfn, hefyd yn gallu cael effaith ar gynefinoedd gwiwerod coch, a dylid gweithredu mesurau lliniaru i wneud iawn am golledion o'r fath.

## Rheoli gwiwerod llwyd

Mae eu trapio'n fyw mewn caets ac wedyn eu rhyddhau yn parhau i fod y prif ddull ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd. Nid yw defnyddio warffarin wedi cael ei ganiatáu ers mis Gorffennaf 2016. Mae ymchwil i reoli ffrwythlondeb gwiwerod llwyd yn parhau, ond eto ni fydd brechiad addas ar gael am flynyddoedd lawer.[2]

Mae tystiolaeth o Iwerddon a'r Alban ei bod yn bosibl y bydd adferiad poblogaethau belaod y coed yn arwain at nifer y gwiwerod llwyd yn dirywio ac at nifer y poblogaethau gwiwerod coch yn cynyddu o ganlyniad. Fodd bynnag, hyd yn hyn ni wyddys trwy ba fecanweithiau mae hyn yn gweithio nac mewn pa amgylchiadau y mae'n debygol o ddigwydd[3] ac mae ymchwil yn parhau.

## Perygl clefydau

Mae firws brech y wiwer (SQPV) yn parhau i fygwth poblogaethau gwiwerod coch, gyda'r clefyd yn cael ei ledaenu trwy wiwerod llwyd. Cafodd yr achosion cyntaf o firws brech y wiwer mewn gwiwerod coch yng Nghymru eu cofnodi yng Ngwynedd yn 2017. Mae ymwybyddiaeth gynyddol o'r risg o glefydau eraill sy'n dod i'r amlwg. Yn benodol, mae adenofirws wedi cael ei gofnodi mewn gwiwerod coch marw mewn lleoliadau ledled y DU. Mae ymchwil yn parhau i wella'r ddealltwriaeth o'r effaith ar boblogaethau gwiwerod coch.

Mae dau gyhoeddiad diweddar yn rhoi disgrifiad manwl o'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran deall ecoleg a rheolaeth gwiwerod coch a llwyd: Red squirrels, Ecology, Conservation & Management in Europe (Shuttleworth, Lurz a Hayward, 2014) a The Grey squirrel: Ecology & Management of an Invasive Species in Europe (Shuttleworth, Lurz a Gurnell, 2016).

[2] http://squirrelaccord.uk/assets/sporopolleninsoralcontraception9nov2016.pdf

[3] Sheehy E et al. 2018 *The enemy of my enemy is my friend: native pine marten recovery reverses the decline of the red squirrel by suppressing grey squirrel populations*. Proc. R. Soc. B 285: 20172603. http://dx.doi.org/10.1098/rspb.2017.2603

# 4. Prif safleoedd y wiwer goch ar gyfer gweithredu cadwraethol

Gwnaeth Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru nodi'r angen i flaenoriaethu gweithredu ar brif safleoedd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithiol. Gyda chymorth Gweinidogion Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, gwnaeth y cynllun diogelu nodi ardaloedd ar Ynys Môn, Coedwig Clocaenog yng ngogledd Cymru a'r rhwydwaith o goedwigoedd yng nghanolbarth Cymru o amgylch Coedwig Tywi fel y prif safleoedd y cytunwyd arnynt lle roedd angen  gweithredu strategol ar frys.

## Ynys Môn

Mae gan Ynys Môn arwynebedd o 710 $km^2$ ac mae'n cael ei gwahanu oddi wrth dir mawr Cymru gan y Fenai, ond mae wedi'i chysylltu gan ddwy bont. Mae'r ynys yn cynnwys tua 2,500 hectar o goetir aeddfed, gan gynnwys dwy blanhigfa gonwydd fasnachol (mae gan Goedwig Niwbwrch arwynebedd o 689 hectar a Mynydd Llwydiarth arwynebedd o 244 hectar).

Ar un adeg, roedd gwiwerod llwyd yn helaeth, ond arweiniodd rhaglen drapio a ddechreuwyd yn 1998 at eu gwaredu.  Yn 1997, dim ond 40 gwiwer goch a oedd ar ôl, ond yn dilyn ehangu naturiol a chyfres o raglenni ailgyflwyno, mae'r boblogaeth gwiwerod coch bellach yn cynnwys tua 700 gwiwer. Mae gwaith cyfredol gan Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru (http://www.redsquirrels.info/), fel rhan o'r prosiect Gwiwerod Coch Unedig a ariennir gan raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd a Chronfa Dreftadaeth y Loteri (http://www.redsquirrelsunited.org.uk/) yn canolbwyntio ar atal gwiwerod llwyd rhag ailgytrefu'r ynys trwy eu rheoli o fewn ardal 150 $km^2$ gyfagos yng Ngwynedd, deall y bygythiad gan glefydau pathogenig mae poblogaethau cymysg o wiwerod coch/llwyd yn ei beri, a monitro dosbarthiad a helaethrwydd gwiwerod coch, gan gynnwys yr anifeiliaid sydd wedi lledaenu o Ynys Môn ac wedi ymsefydlu yng Ngwynedd. Yn hydref 2017, roedd achos o frech firws y wiwer yn ardal y Fenai yng Ngwynedd, gyda phrofion ar dair gwiwer goch farw yn dangos bod ganddynt y clefyd. Nid oes tystiolaeth fod y clefyd wedi lledaenu i'r boblogaeth ar Ynys Môn.

## Clocaenog

Mae Coedwig Clocaenog yn blanhigfa gonwydd fasnachol fawr (5,500 hectar) yn yr ucheldiroedd yng ngogledd Cymru ar y ffin rhwng Sir Ddinbych a Chonwy, ac mae'n cael ei rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru.  Sbriws Sitca yw'r brif rywogaeth yn y goedwig, ond mae hefyd lleiniau wedi'u gwasgaru'n helaeth o rywogaethau eraill o goed sy'n fwy addas ar gyfer gwiwerod coch megis sbriws Norwy, llarwydd a phinwydd.

Yn y 1990au, roedd gwiwerod coch yn helaeth yn y goedwig ac ystyrid mai dyna oedd y boblogaeth sengl fwyaf yng Nghymru, a chafodd 2,000 hectar o goedwig ei dosbarthu fel 'gwarchodfa gwiwerod coch' yn 1992. O ganlyniad, roedd gwiwerod coch yn cael eu nodi fel nodwedd â blaenoriaeth o fewn yr holl ardal goedwig, gyda gweithredu cadwraethol yn cynnwys rheoli gwiwerod llwyd, cynyddu arwynebedd sbriws Norwy a phinwydd yr Alban, a chyflwyno coedwig gorchudd di-dor, sy'n cynnal coedwig uchel gynhyrchiol a chysylltedd yn y canopi.

Mae gwybodaeth o arolygon yn awgrymu bod y boblogaeth gwiwerod coch wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae cofnodion diweddar o gamerâu llwybr wedi dangos bod gwiwerod coch yn parhau i fod yn bresennol ym mhrif ran y goedwig a gorllewin Coedwig Alwen. Mae anawsterau monitro poblogaethau gwiwerod coch dwysedd isel yn golygu nad yw data ar gael bob amser er mwyn penderfynu a yw dirywiad gwiwerod coch o ganlyniad iddynt gael eu heithrio'n raddol gan wiwerod llwyd cystadleuol, neu a fu dirywiad sydyn o ganlyniad i achos o frech firws y wiwer (mae unigrwydd y goedwig yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai'r clefyd yn cael ei ganfod mewn unrhyw wiwerod coch). Mae prosiect atgyfnerthu gwiwerod coch bellach yn cael ei gynnal i gefnogi adferiad y boblogaeth.

Mae'r gwaith o reoli gwiwerod llwyd yn parhau ar draws y goedwig, ac am y tro cyntaf mae gwirfoddolwyr yn monitro ac yn trapio o dan brosiect Gwiwerod Coch Unedig a phrosiect Green Shoots BASC (Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain). Mae Ceidwad Gwiwerod Coch Gwiwerod Coch Unedig wedi llwyddo i recriwtio grŵp o wirfoddolwyr sy'n cynnal trapio o fewn y goedwig ac yn y glustogfa. Mae rhwydwaith helaeth o drapiau camera yn cael ei ddefnyddio i fonitro'r boblogaeth gwiwerod coch a nodi presenoldeb gwiwerod llwyd er mwyn eu trapio. Mae prosiect Green Shoots BASC hefyd wedi bod yn gweithio gydag aelodau'r gymdeithas i annog trapio yn y goedwig ac o'i hamgylch.

## Canolbarth Cymru

Mae'r boblogaeth gwiwerod coch yng nghanolbarth Cymru wedi'i gwasgaru'n helaeth dros 15,000 hectar o blanhigfeydd coedwig ucheldir yn nalgylch uchaf Afon Tywi. Mae ymdrechion i gynnal arolygon wedi bod yn lleol ac yn anaml, gydag amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn amrywio o 100 i 500 gwiwer.

Mae gwiwerod llwyd yn bresennol yn y coetiroedd llydanddail o gwmpas Prif Safle'r Wiwer Goch Canolbarth Cymru ac weithiau maent yn mentro i ganol y prif safle. Mae rheoli cynefinoedd mewn modd amhriodol hefyd yn bygwth hyfywedd y boblogaeth gwiwerod coch yng nghanolbarth Cymru. Mae clirio ardaloedd mawr o goed yn lleihau argaeledd cynefin a chysylltedd coedol, a gall arwain at ddifodi poblogaethau gwiwerod coch lleol. Gallai newidiadau diweddar i gyfansoddiad rhywogaethau wedi'u peri gan golli llarwydd o ganlyniad i glefyd *Phytophthora ramorum*, ac anfodlonrwydd i blannu pinwydd camfrig, fygwth ffynonellau bwyd ar gyfer gwiwerod coch. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gofyniad i amrywio'r coed sy'n cael eu plannu o dan Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU yn helpu i ddarparu amrywiaeth o ffynonellau bwyd ar gyfer gwiwerod coch yn y tymor hir.

Mae Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn gweithio i leihau'r boblogaeth gwiwerod llwyd ar Brif Safle'r Wiwer Goch Canolbarth Cymru ac o'i gwmpas, ac i annog rheoli coedwigoedd mewn modd cydnaws. Ers 2014, mae prosiect wedi'i arwain gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru wedi cyflogi Swyddog Gwiwerod Coch yn rhan amser. Mae'r prosiect wedi sefydlu cynllun benthyca trapiau i gynnwys tirfeddianwyr a thrigolion ar Brif Safle'r Wiwer Goch Canolbarth Cymru ac o'i gwmpas yn y gwaith o reoli gwiwerod llwyd. Ers mis Medi 2016, trwy brosiect y DU gyfan Gwiwerod Coch Unedig, mae prosiect Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru hefyd wedi cyflogi Swyddog Rheoli Gwiwerod Llwyd yn rhan amser i helpu i gynnal ac ehangu'r cynllun benthyca trapiau. Mae cynllun benthyca trapiau Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru yn cael ei ategu gan brosiect Green Shoots BASC, sy'n cynnal cynllun benthyca trapiau mewn parth o gwmpas clustogfa Prif Safle'r Wiwer Goch Canolbarth Cymru. Mae trapio gwiwerod llwyd hefyd wedi cael ei ariannu o dan gynllun amaeth-amgylcheddol Glastir (Rheoli Coetir Glastir a Glastir Uwch) ac mae'n cael ei gynnal mewn nifer o goedwigoedd yn ardal graidd y prif safle, ac mewn coetiroedd llai o fewn y glustogfa. Dylid nodi nad oes sicrwydd y bydd y cynlluniau grant hyn yn parhau

Mae'r prosiect yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o wiwerod coch a'u hanghenion cadwraeth trwy fod yn bresennol mewn digwyddiadau, sgyrsiau cyhoeddus, ymgysylltu â'r wasg, gwefan prosiect a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae gwirfoddolwyr lleol yn monitro gwiwerod coch mewn nifer o leoliadau o fewn Prif Safle'r Wiwer Goch Canolbarth Cymru â thrapiau camera, yn ogystal â chynnal arolygon ehangach o wiwerod coch i ganfod eu dosbarthiad a'u helaethrwydd. Mae Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru wedi bod yn gweithio gyda rheolwyr coedwig i ddatblygu cynllun rheoli ar gyfer craidd Prif Safle'r Wiwer Goch Canolbarth Cymru; cafodd y cynllun pum mlynedd cyntaf ei lansio yn 2017.

Ers 2015, bu cryn gynnydd nodedig yn nifer y gwiwerod coch a welwyd ac yr adroddwyd amdanynt i Bartneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru, ac yn nosbarthiad daearyddol y mannau lle y cawsant eu gweld. Yn ôl pob golwg, mae hyn yn dangos bod maint a dosbarthiad y boblogaeth gwiwerod coch yng nghanolbarth Cymru wedi cynyddu. Fodd bynnag, gallai'r nifer uwch a welwyd hefyd fod yn arwydd o ymwybyddiaeth uwch ymhlith y cyhoedd.

# 5. Cynnydd tuag at gyflawni amcanion a thargedau 2009

Prif amcan Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru oedd cynnal poblogaethau gwiwerod coch sy'n bridio ar bob prif safle, ond roedd hefyd yn ceisio cyrraedd targed y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a gytunwyd gan Fforwm Gwiwerod Coch Cymru yn 2005.

## Targed y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

Targed y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a osodwyd yn 2005 oedd 'Cynnal gwiwerod coch yn eu dosbarthiad presennol erbyn 2010 a 2015'. Ar yr adeg honno, aseswyd bod gwiwerod coch yn bresennol mewn cyfanswm o 20 sgwâr 10km yng Nghymru. Yn 2017, amcangyfrifwyd bod dosbarthiad gwiwerod coch yn estyn i tua 32 sgwâr 10km (gweler Tabl 1 a Ffigur 1).

**Tabl 1 Crynodeb o ddosbarthiad gwiwerod coch yng Nghymru**
Niferoedd y gwiwerod coch yn bresennol mewn sgwariau 10km yn 2005 a 2017


| | Nifer y sgwariau | |
|---|---|---|
| **Safleoedd lle mae gwiwerod coch wedi cael eu cofnodi** | **2005** | **2008-2017** |
| Prif Safle Ynys Môn | 4 | 12 |
| Gwynedd | | 4[a] |
| Prif Safle Clocaenog | 2 | 2 |
| Prif Safle Canolbarth CYmru | 10 | 13 |
| Cynwyd a Nantyr | 2 | 0[b] |
| Aberhirnant | 2 | 0 |
| Cwm Mynach | 0 | 1[c] |
| Brechfa | 0 | 0 |
| Rheola | 0 | 0 |
| **Nifer y sgwariau** | **20** | **32** |

a ddim yn cynnwys sgwariau sy'n gorgyffwrdd ag Ynys Môn
b adroddiadau am weld gwiwerod coch heb eu cadarnhau
c un cofnod sengl o weld gwiwer goch wedi'i gadarnhau yn 2011

## Amcanion Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru 2009

Mae amcan Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru i 'gynnal poblogaethau gwiwerod coch sy'n bridio ar bob prif safle yng Nghymru' wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus, gyda gwiwerod coch sy'n bridio yn parhau i fod yn bresennol yng Nghoedwig Clocaeong, y boblogaeth yng nghanolbarth Cymru yn fwy diogel ac o bosibl yn ehangu, a'r boblogaeth wedi ehangu yn sylweddol ar draws Ynys Môn

Mae'n debyg nad yw'r amcan eilaidd i 'gynnal dosbarthiad presennol gwiwerod coch yng Nghymru os yw adnoddau'n caniatáu' wedi cael ei gyflawni. Er bod cyfanswm dosbarthiad gwiwerod coch yng Nghymru wedi ehangu (gweler Tabl 1), ni fu'n bosibl targedu'r gwaith o reoli'r rhan fwyaf o'r coetiroedd nad ydynt yn brif safleoedd. Bellach ystyrir bod boblogaethau yn Aberhirnant, Nantyr, Brechfa a Rheola wedi diflannu, er ei bod yn bosibl mai dyna oedd yr achos eisoes yn 2009 pan gafodd y cynllun ei ysgrifennu. Mae statws gwiwerod coch yng Nghynwyd a Chwm Mynach yn aneglur.




**Ffigur 1 Dosbarthiad gwiwerod coch yng Nghymru yn 2017.**

Mae'r map yn dangos cofnodion ar lefel sgwâr 10km ar y tri phrif safle, eu clustogfeydd a safleoedd eraill lle y credir y bu gwiwerod coch yn bresennol yn y 20 mlynedd diwethaf.

## 6. Adolygiad o weithrediad y cynllun diogelu

Gofynnwyd i Fforwm Gwiwerod Cymru ddarparu gwybodaeth am y cynnydd a'r cyfyngiadau y daethpwyd ar eu traws yn ystod y gwaith o weithredu'r cynllun diogelu. Gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion ar gyfer pob cam gweithredu.

### Arolygu a monitro

Mae gwaith arolygu wedi cael ei gwblhau ar y rhan fwyaf o'r safleoedd lle mae eisoes tystiolaeth o wiwerod coch. Cafodd gwiwerod coch eu canfod yng Nghwm Mynych a gwelwyd rhai yng Nghynwyd. Mae'n debyg fod gwiwerod coch bellach wedi diflannu o Frechfa, Rheola, Aberhirnant a Nantyr (gweler Ffigur 1).

Nid yw gwaith i fonitro maint poblogaethau ar y prif safleoedd yn effeithiol wedi bod yn bosibl oherwydd dwysedd isel gwiwerod dros ardal helaeth, yn enwedig ar y prif safleoedd ar y tir mawr. Hyd yn hyn, ni nodwyd methodoleg gosteffeithiol a fyddai'n ddigon pwerus i ganfod unrhyw newid i faint y boblogaeth. Mae argaeledd camerâu llwybr mwy fforddiadwy wedi gwella'r cyfleoedd ar gyfer arolygon, er bod rhai pryderon ynghylch y risg o glefydau mewn perthynas â'r rhai sy'n defnyddio abwyd. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y boblogaeth ar Ynys Môn wedi cynyddu ac mae bellach yn sylweddol. Yng nghanolbarth Cymru, mae dwysedd y boblogaeth yn isel â dosbarthiad helaeth a niferoedd sy'n sefydlog yn ôl pob tebyg, er bod rhai arwyddion fod y boblogaeth gwiwerod coch wedi dirywio i'r dwyrain o Brif Safle'r Wiwer Goch Canolbarth Cymru. Mae gan Goedwig Clocaenog boblogaeth isel sydd wedi dirywio fwy na thebyg. Mae cofnodion diweddar wedi bod yng ngorllewin a dwyrain y goedwig, ond ychydig yn unig yn y rhan ganolog.

### Prif safleoedd – rheoli coetir ar gyfer poblogaethau gwiwerod coch

Bu ymgysylltu parhaus â'r broses cynllunio coedwigoedd, er bod argaeledd staff prosiect neilltuedig ar adegau wedi cyfyngu ar allu prosiectau i gyfrannu. Mae cynlluniau rheoli wedi cael eu paratoi ar gyfer pob un o'r tri phrif safle, gyda gwaith helaeth i ymgysylltu â chwmnïau coedwig preifat a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru. Mae gwaith gorfodol i gwympo llarwydd oherwydd haint *Phythophthora ramorum* wedi cael effaith ar gynlluniau rheoli gwiwerod coch. Bydd angen parhaus i ddylanwadu ar reoli coedwigoedd ar y prif safleoedd, ond mae angen eglurder ynglŷn â'r dull gorau ar gyfer gwneud hynny, yn enwedig wrth i Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd. Mae parhau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau rheoli y cytunwyd arnynt yn dal i fod yn flaenoriaeth bwysig.

### Rheoli gwiwerod llwyd o fewn y prif safleoedd a'u clustogfeydd

Mae rheoli gwiwerod llwyd wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus ym mhob prif safle i ddiogelu poblogaethau gwiwerod coch. Mae trapio wedi cael ei gynnal trwy dalu contractwyr a/neu ddefnyddio gwirfoddolwyr yn dilyn sefydlu a chydlynu cynlluniau benthyca trapiau. Mae cyllid ar gyfer contractwyr a swyddogion prosiect wedi dod o amrediad o ffynonellau megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri, cyllid Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae rhywfaint o waith rheoli wedi cael ei wneud hefyd trwy gytundebau amaeth-amgylcheddol Glastir.

I ddechrau, roedd y rheoli'n canolbwyntio ar symud gwiwerod llwyd o ardal graidd y prif safleoedd. Mae gwiwerod llwyd wedi cael eu gwaredu o Ynys Môn ac maent bellach yn anghyffredin yng Nghoedwig Clocaenog a chanolbarth Cymru. Mae trapio bellach yn cael ei ganolbwyntio ar reoli gwiwerod llwyd o fewn clustogfeydd pob safle, wrth gadw'r ardaloedd craidd yn rhydd rhag gwiwerod llwyd. Mae'r dyfodol yn parhau i fod yn ansicr oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau. Mae sefydlu cynlluniau benthyca trapiau'n darparu swyddogaeth bwysig wrth fabwysiadu dulliau cynaliadwy ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd, ond bydd angen cymorth parhaus ar wirfoddolwyr.

## Cyngor ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

Mae Fforwm Gwiwerod Cymru a phartneriaid partner wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar brosiect Glastir, wedi rhoi cyngor ynglŷn â gweithredu mesurau i ddiogelu gwiwerod coch, ac wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd. Bydd angen parhau i ddarparu cyngor wrth i gynlluniau amaeth-amgylcheddol newydd gael eu datblygu

Mae Fforwm Gwiwerod Cymru yn darparu cyfle i rannu syniadau a thrafod problemau. Mae prosiect cyfredol Gwiwerod Coch Unedig yn cynnwys pob un o'r tri phrif safle yng Nghymru yn ogystal â Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac mae cydweithredu a rhannu'r arferion gorau yn rhan bwysig o'r prosiect.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn rhan allweddol ar bob un o'r tri phrif safle. Ar Ynys Môn, mae Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru yn grŵp a arweinir gan y gymuned ac mae'n cydlynu'r holl waith cadwraeth ac ymgysylltu. Mae Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru wedi sefydlu deg canolfan gwirfoddolwyr, gyda phobl leol yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o reoli gwiwerod llwyd, monitro gwiwerod coch a hyrwyddo'r prosiect mewn digwyddiadau. Yng Nghoedwig Clocaenog, mae gwaith bellach yn cael ei wneud i sefydlu grŵp 'cyfeillion', ac mae llawer o ddiddordeb yn lleol.

Bydd cynnwys cymunedau lleol yn parhau i fod yn hanfodol i'r gwaith o ddiogelu poblogaethau gwiwerod coch yn y dyfodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ym mhob un o'r tri phrif safle ond mae'n debyg y bydd yr angen am gymorth ar y grwpiau hyn yn parhau. Mae cymryd rhan ym mhrosiect Gwiwerod Coch Unedig a Chytundeb Gwiwerod y DU (http://squirrelaccord.uk/) yn darparu cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chymryd rhan mewn gwaith ar lefel y DU.

## Rheoli clefydau

Mae samplau o feinwe o bob un o'r prif safleoedd yn dangos presenoldeb gwrthgyrff ar gyfer firws brech y wiwer mewn gwiwerod llwyd, a chafodd yr achos cyntaf mewn gwiwerod coch ei gofnodi yn hydref 2017 yng Ngwynedd. Mae adenofirws hefyd wedi cael ei nodi fel bygythiad posibl i wiwerod coch, a chanfuwyd gwiwerod coch wedi'u heintio yn Ynys Môn/Gwynedd yn 2016. Mae argaeledd cyllid wedi cyfyngu ar y gallu i ddadansoddi samplau, ac mae angen parhaus i gynnal gwaith gwyliadwriaeth clefydau.

Mae'r arferion gorau ar gyfer hylendid trapiau'n cael eu dilyn gan yr holl brosiectau, gyda gweithdrefnau gweithredu safonol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd a monitro gwiwerod coch. Mae angen arweiniad ychwanegol mewn perthynas â bygythiad clefydau sy'n dod i'r amlwg.

## Ymchwil

Mae mewnbwn i fyd ymchwil ar lefel Cymru wedi cael ei gyfyngu yn ddiweddar oherwydd bod llai o gyfarfodydd i drafod gwiwerod coch ar lefel y DU. Fodd bynnag, mae'r angen i dynnu sylw'r sefydliadau priodol at unrhyw anghenion ymchwil sy'n cael eu nodi'n parhau i fod.

I grynhoi, gwnaed cynnydd tuag at gyflawni camau gweithredu ym mhob rhan o'r cynllun diogelu. Fodd bynnag, bu cyfyngiadau, yn enwedig mewn perthynas ag argaeledd adnoddau i reoli gwiwerod llwyd yn effeithiol, heriau ynghylch rheoli coedwigoedd, a'r angen am dechneg effeithiol ac ymarferol ar gyfer monitro gwiwerod coch.

# 7. Amcanion ar gyfer diogelu gwiwerod coch wedi'u diweddaru

Mae'r adolygiad o gynnydd hwn wedi nodi y dylai'r tri phrif safle y cytunwyd arnynt (Ynys Môn, Coedwig Clocaenog a Chanolbarth Cymru) barhau i fod yr ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Mae Fforwm Gwiwerod Cymru wedi cytuno y dylai'r amcanion ar gyfer Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru o 2018 ymlaen fod fel a ganlyn:

- Cynnal a chynyddu dosbarthiad y wiwer goch o fewn y prif safleoedd yng Nghymru
- Cynnal a chynyddu maint poblogaeth y wiwer goch ar y prif safleoedd i sicrhau bod y poblogaethau'n gadarn ac yn gydnerth
- Os yw adnoddau'n caniatáu, cynnal a chynyddu dosbarthiad poblogaethau'r wiwer goch y tu hwnt i'r prif safleoedd

# 8. Camau gweithredu diwygiedig ar gyfer diogelu'r wiwer goch

Yn dilyn adolygiad o'r cynnydd a wnaed tuag at weithredu camau gweithredu'r cynllun diogelu, mae Fforwm Gwiwerod Cymru wedi cytuno ar y camau gweithredu diwygiedig canlynol.

Y corff arweiniol sy'n gyfrifol am gydlynu a/neu annog gweithredu, ond bydd amrediad o bartïon eraill yn cyfrannu at y gwaith cyflawni.

| Cam gweithredu | Corff arweiniol |
|---|---|
| **Nodi a monitro poblogaethau gwiwerod coch** | |
| 1. Cynnal arolygon o safleoedd nad ydynt yn brif safleoedd lle y derbynnir cofnodion dibynadwy o wiwerod coch | Fforwm Gwiwerod Cymru |
| 2. Adolygu prif safleoedd y wiwer goch y cytunwyd arnynt bob pum mlynedd | Fforwm Gwiwerod Cymru |
| 3. Monitro poblogaethau gwiwerod coch yn y prif safleoedd i ganfod eu dosbarthiad ac, os oes modd, maint cymharol eu poblogaeth | Prosiectau gwiwerod coch lleol |
| **Diogelu poblogaethau gwiwerod coch** | |
| 4. Adolygu a chyflwyno sylwadau ar y gwaith o gynllunio rheoli oedwigoedd, gan gynnwys Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd | CNC ac aelodau o Fforwm Gwiwerod Cymru |
| 5. Adolygu a pharhau i weithredu cynlluniau rheoli gwiwerod coch ar gyfer y prif safleoedd[5] | Prosiectau gwiwerod coch lleol |
| 6. Rheoli gwiwerod llwyd o fewn prif safleoedd y wiwer goch (gweler hefyd Camau Gweithredu 5 ac 7 y Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd) | CNC[5] a/neu prosiectau gwiwerod coch lleol |
| 7. Rheoli gwiwerod llwyd o fewn clustogfeydd prif safleoedd y wiwer goch | CNC[6] a/neu prosiectau gwiwerod coch lleol |
| 8. Darparu cyngor ar ddatblygiadau mae'n bosibl y byddant yn effeithio ar gynefinoedd gwiwerod coch | CNC a/neu prosiectau gwiwerod coch lleol |

[5] Bydd cynlluniau rheoli prif safleoedd yn ddibynnol ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fel y bo'n briodol
[6] Mae gwaith rheoli gwiwerod llwyd CNC yn berthnasol i Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn unig

| | |
|---|---|
| **Ymateb i bolisïau** | |
| 9. Ymateb i ymgynghoriadau i sicrhau bod cadwraeth y wiwer goch yn derbyn sylw yn y dogfennau polisi perthnasol | Fforwm Gwiwerod Cymru ac aelodau o sefydliadau unigol |
| **Rheoli clefydau** | |
| 10. Monitro achosion o firws brech y wiwer mewn gwiwerod llwyd | Fforwm Gwiwerod Cymru a phrosiectau gwiwerod coch lleol |
| 11. Sicrhau bod gweithgareddau'n lleihau'r risg o'r clefyd yn trosglwyddo rhwng gwiwerod coch a llwyd | Fforwm Gwiwerod Cymru a phrosiectau gwiwerod coch lleol |
| **Gwaith cynghori ac ymwybyddiaeth y cyhoedd** | |
| 12. Hwyluso a gwella cyfathrebu a rhannu arferion da rhwng ymarferwyr gwiwerod coch a llwyd yng Nghymru a'r DU (gweler hefyd Camau Gweithredu 9 ac 10 y Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd) | Fforwm Gwiwerod Cymru |
| 13. Darparu cyngor ar ddiogelu gwiwerod coch (gan gynnwys rheoli gwiwerod llwyd) ar gyfer datblygwyr, coedwigwyr ac awdurdodau lleol (gweler hefyd Cam Gweithredu 6 y Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd) | Fforwm Gwiwerod Cymru a phrosiectau gwiwerod coch lleol |
| 14. Sefydlu a chefnogi grwpiau gwiwerod coch cymunedol ar gyfer y prif safleoedd | Prosiectau gwiwerod coch lleol |
| 15. Hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o'r wiwer goch yng Nghymru a'r gwaith o'i diogelu | Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a phrosiectau gwiwerod coch lleol |
| **Ymchwil** | |
| 16. Cynnal trosolwg o waith ymchwil ar y wiwer goch a'r wiwer lwyd yn y DU a sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru yn derbyn sylw | Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Forest Research |
| 17. Adolygu ac asesu effaith bosibl newid yn yr hinsawdd ar ddiogelu gwiwerod coch yng Nghymru | Forest Research |

## 9. Llywodraethu

Bydd y gwaith o weithredu Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru yn cael ei oruchwylio gan Fforwm Gwiwerod Cymru Bydd aelodau o Fforwm Gwiwerod Cymru yn gyfrifol am gamau gweithredu penodol.

Bydd y Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru yn cael ei adolygu bob pum mlynedd i asesu'r cynnydd wrth ei weithredu ac i benderfynu a oes angen unrhyw ddiweddariadau.

Bydd Fforwm Gwiwerod Cymru hefyd yn gweithredu fel grŵp llywio i gydlynu, cefnogi a darparu cyngor ar y Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd. Mae'n debygol y bydd cyfleoedd i nodi camau gweithredu sy'n gyffredin i'r ddau gynllun er mwyn hwyluso'r gweithrediad.

## Atodiad 1 Ysgogwyr gweithredu i ddiogelu poblogaethau'r wiwer goch yng Nghymru

Mae'r angen i weithredu i gynnal a chynyddu poblogaethau gwiwerod coch yng Nghymru yn cael ei gefnogi gan yr ysgogwyr deddfwriaethol a pholisi canlynol:

### Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 a Pholisi Adnoddau Naturiol

Mae Deddf yr Amgylchedd yn amlinellu dull Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a chyflawni canlyniadau gwirioneddol ar gyfer yr amgylchedd, y bobl, yr economi a'n cymunedau ni. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth uwch ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth, a hybu cydnerthedd ecosystemau, lle bo hynny'n cyd-fynd â'r gwaith o arfer eu swyddogaethau'n briodol. Mae Adran 7 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o organebau byw sydd o arwyddocâd allweddol i fioamrywiaeth yng Nghymru. Cynhwysir y wiwer goch ar y rhestr Adran 7 dros dro.

Mae'r amcanion a'r camau gweithredu yn y Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru yn berthnasol i Ddeddf yr Amgylchedd a'r tair prif elfen a gyflwynwyd gan y Ddeddf: yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal. Fel rhan allweddol ac eiconig o fioamrywiaeth Cymru, bydd camau i barhau i ddiogelu poblogaethau gwiwerod coch yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at y gwaith o gyflawni dyletswydd bioamrywiaeth y Ddeddf.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. I sicrhau bod pob un ohonom yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd bioamrywiaeth ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'n nodau hyn. Mae Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru yn bodloni'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy nifer o'r nodau llesiant. Mae gwiwerod coch yn rhan o amgylchedd naturiol Cymru (Cymru gydnerth) ac mae llwyddiant rhaglenni cadwraeth yn dibynnu ar gymunedau lleol (Cymru o gymunedau cydlynus), gyda phobl yn derbyn cryn fwynhad o weld gwiwerod coch yn eu hamgylchedd lleol (Cymru iachach).

### Cynllun Adfer Natur Cymru 2015

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn cynnwys Strategaeth Natur, ei chynllun gweithredu cysylltiedig, a Fframwaith Adfer Natur sy'n amlinellu'r strwythur llywodraethu i sicrhau gweithredu yng Nghymru. Dyma'r weledigaeth mae'r Cynllun Adfer Natur yn ceisio ei gwireddu:

> *'Gwrthdroi'r dirywiad o ran bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau buddion sy'n para i'r gymdeithas'*

Mae'r Cynllun Adfer Natur yn diffinio'r amcanion a'r prif gamau y mae angen eu cymryd yng Nghymru i wireddu ein huchelgais ac i gyflawni'r nod Cymru gydnerth a'r ymrwymiadau byd-eang ac Ewropeaidd i roi terfyn ar golli bioamrywiaeth. Mae'r Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yn cyfrannu at Amcanion 2 a 4 y Cynllun Adfer Natur:

- Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well. Ar hyn o bryd, mae'r wiwer goch wedi'i rhestru fel rhywogaeth o'r pwys mwyaf.
- Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd. Cystadlu gan wiwerod llwyd a lledaeniad clefydau yw'r pwysau mwyaf arwyddocaol ar boblogaethau gwiwerod coch. Mae rheoli cynefinoedd hefyd yn bwysig.

## Rheoliad yr UE (UE) Rhif 1143/2014 ar Atal a Rheoli Cyflwyniad a Lledaeniad Rhywogaethau Goresgynnol Estron

Mae'r rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol llunio rhestr o rywogaethau goresgynnol estron sy'n peri pryder i'r Undeb, ac i aelod-wladwriaethau roi mesurau rheoli ar waith ar gyfer gwaredu, rheoli neu atal rhywogaethau sydd ar y rhestr. Mae'r wiwer lwyd ar y rhestr gyntaf o rywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb, a ddaeth i rym ar 3 Awst 2016. Mae gan aelod-wladwriaethau, fel y DU, 18 mis i roi mesurau rheoli effeithiol a chymesur ar waith ar gyfer y rhywogaethau a restrir, gan gynnwys y wiwer lwyd. Mae Cynllun Llywodraeth Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd yn rhoi sylw i ofynion y rheoliad hwn yng Nghymru.

## Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd

Mae'r Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd yn ceisio rhoi sylw i ymrwymiadau o dan Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru, yn ogystal â gofynion o dan Reoliad yr UE ar Atal a Rheoli Cyflwyniad a Lledaeniad Rhywogaethau Goresgynnol Estron, mewn perthynas â gwiwerod llwyd. Y nod yw datblygu dull mwy integredig ac effeithiol ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd yng Nghymru, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau.

Mae amcanion y cynllun yn cydnabod pwysigrwydd ceisio gwella iechyd a chydnerthedd adnodd coetiroedd Cymru a'r buddion mae'n eu darparu ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yn y dyfodol. Amcan Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd yw rheoli poblogaethau gwiwerod llwyd er mwyn:

- Lleihau'r effaith ar boblogaethau'r wiwer goch
- Lleihau'r effaith ar ecosystemau coetiroedd a choed a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, gan gynnwys cynhyrchu pren.

Mae'r Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd yn ategu'r fersiwn ddiweddaredig hon o Gynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru, a bydd rhai o'r camau gweithredu mae'n eu cynnwys yn cyfrannu at gadwraeth gwiwerod coch.

## Atodiad 2 Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru – cynnydd yn erbyn camau gweithredu 2009

Crynodeb o'r ymatebion a gyflwynwyd gan bartneriaid Fforwm Gwiwerod Cymru

### 1. Nodi a monitro poblogaethau gwiwerod coch

| | |
|---|---|
| **Cam 1.1 Gweithredu** | **Arolygu'r holl safleoedd sydd â chofnodion o wiwerod coch yn y deng mlynedd diwethaf.**<br>Cynnal arolygon o'r holl safleoedd sydd â chofnodion dibynadwy diweddar o wiwerod coch, gan ddefnyddio technegau priodol i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy am statws y poblogaethau ar y safleoedd hynny. Annog aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno cofnodion os ydynt yn gweld gwiwerod coch, gan ddarparu arweiniad ar eu hadnabod. |
| Cynnydd | G**weler isod am arolygon o'r prif safleoedd. Safleoedd eraill sydd â thystiolaeth flaenorol o wiwerod coch:**<br>**Cwm Mynach** – arolygon tiwbiau blew a thrap camera 2011–16. Sampl o flew a gasglwyd yn 2011 yw'r unig gofnod.<br>**Aberhirnant** – cynhaliwyd yr arolwg diweddaf yn 2001 ac ni chafwyd tystiolaeth o'r wiwer goch.<br>**Cynwyd** – dechreuwyd arolygon trap camera ond bu i broblemau mynediad arwain at atal yr arolwg. Rhai adroddiadau am weld gwiwerod coch. Arolwg yn cael ei ailddechrau ond dim gwiwerod coch wedi cael eu cofnodi.<br>**Brechfa** – ni ddangosodd arolygon o ffermydd gwynt gan ddefnyddio tiwbiau blew a cherdded ar hyd trawsluniau unrhyw dystiolaeth o wiwerod coch.<br>**Rheola neu Nantyr** – dim cyfle ar gyfer arolygon ond ni fu unrhyw adroddiadau am weld gwiwerod coch..<br>**Gwynedd** – derbyniwyd cofnodion o wiwerod coch o ardal Bangor a'r tu hwnt wrth i wiwerod coch ledaenu o Ynys Môn. O bryd i'w gilydd, mae anifeiliaid yn cael eu dal yn ystod gwaith i reoli'r wiwer lwyd. Weithiau ceir adroddiadau achlysurol am weld gwiwerod coch a gellir defnyddio'r rhain yn sail ar gyfer arolygon eraill, ond mae'n hawdd cymysgu gwiwerod coch a llwyd. |
| Cyfyngiadau | • Mae cyllid ar gyfer cynnal arolygon ffurfiol wedi bod yn gyfyngedig iawn.<br>• Mae maint mawr safleoedd a dwysedd isel gwiwerod wedi cyfyngu perthnasedd y methodolegau mwyaf safonol, ac nid yw methodoleg gosteffeithiol, briodol wedi cael ei sefydlu hyd yn hyn.<br>• Pryder ynglŷn â firws brech y wiwer yn cael ei drosglwyddo rhwng rhywogaethau o wiwerod lle mae abwyd yn cael ei ddefnyddio. |
| Gofynion yn y dyfodol | • Cael mynediad at gyllid a meithrin perthnasau â phrifysgolion i alluogi alluogi cynnal arolygon o'r holl safleoedd priodol.<br>• Ymwybyddiaeth barhaus o'r angen i adrodd am weld gwiwerod coch a mecanwaith ar gyfer asesu dilysrwydd.<br>• Nodi cyfleoedd i gynnal arolygon yn y dyfodol ar safleoedd lle mae cofnodion cynharach o wiwerod coch, yn enwedig Cynwyd. |
| **Crynodeb** | **Cynhaliwyd arolygon o rai safleoedd gyda chanlyniadau cymysg. Mae argaeledd camerâu llwybr mwy fforddiadwy wedi gwella'r cyfleoedd ar gyfer arolygon, ond mae pryderon ynghylch y risg o glefydau.** |

| | |
|---|---|
| | **Mae angen parhau i fod yn ymwybodol o bresenoldeb posibl gwiwerod coch y tu allan i'r prif safleoedd, yn enwedig Cynwyd a Chwm Mynach. Mae'n debyg fod gwiwerod bellach yn absennol o Frechfa, Rheola a Nantyr.** |

| | |
|---|---|
| **Cam 1.2** | **Sefydlu dulliau o fonitro poblogaethau ar brif safleoedd y wiwer goch yng Nghymru**<br>Gan ddefnyddio protocol cytunedig, sefydlu system i fonitro'r prif safleoedd yng Nghymru i ganfod statws poblogaethau gwiwerod coch. Dylai monitro hefyd ddarparu gwybodaeth am ddosbarthiad a helaethrwydd gwiwerod llwyd o fewn y prif safleoedd a'r clustogfeydd a chael ei ddefnyddio i dargedu ymdrechion i'w rheoli. |
| Cynnydd | Mae protocol monitro drafft wedi cael ei drafod gan Fforwm Gwiwerod Cymru, ond nid yw unrhyw fethodoleg addas a fydd yn darparu amcangyfrifon dibynadwy o boblogaethau wedi cael ei nodi. Mae pob un o'r prif safleoedd wedi cynnal ei waith adolygu ei hun.<br><br>**Canolbarth Cymru** – cynhaliwyd arolygon trapio o nifer o safleoedd, sydd wedi rhoi amcangyfrif o faint y boblogaeth leol. Prosiect tracio â radio wedi'i gwblhau a samplau o flew wedi'u casglu. Mae trapiau camera unigol wedi cael eu gosod ac yn cael eu monitro gan wirfoddolwyr, ac mae arolygon trap camera mwy yn cael eu harwain gan wirfoddolwyr ar safleoedd dethol ar Brif Safle'r Wiwer Goch Canolbarth Cymru<br>**Clocaenog** – arolwg trapio yn 2011–12 ond methu â thrapio unrhyw wiwerod coch, ond mae trapiau camerâu wedi'u monitro gan wirfoddolwyr bellach yn canfod gwiwerod coch.<br>**Ynys Môn** – dim monitro systematig ond mae'r cyhoedd yn adrodd am weld gwiwerod coch yn rheolaidd ledled yr ynys. |
| Cyfyngiadau | • Mae maint mawr safleoedd a dwysedd isel gwiwerod ar y prif safleoedd ar y tir mawr wedi cyfyngu perthnasedd y methodolegau mwyaf safonol. Hyd yn hyn, nid yw methodoleg gosteffeithiol, briodol wedi cael ei sefydlu a fyddai'n ddigon pwerus i ganfod unrhyw newid i faint y boblogaeth.<br>• Nid yw monitro'n gyson ac mae'n dibynnu ar wirfoddolwyr i fonitro pob trap camera'n effeithiol.<br>• Gwnaed penderfyniad i beidio â defnyddio arolygon tiwbiau blew yng nghanolbarth Cymru oherwydd y risg bosibl o drosglwyddo firws brech y wiwer rhwng rhywogaethau o wiwerod.<br>• Mae monitro bellach yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth isel ar gyfer adnoddau o'i gymharu â gweithredu'r gwaith i reoli gwiwerod llwyd. |
| Gofynion yn y dyfodol | • Arweiniad academaidd/ystadegol ar ddulliau priodol ar gyfer canfod newidiadau i boblogaethau dwysedd isel.<br>• Rhagor o wirfoddolwyr bodlon, abl sy'n byw yn agos i'r safle lle yr adroddwyd am weld gwiwerod coch yn ddiweddar. |
| **Crynodeb** | **Gwnaed rhywfaint o gynnydd ond nid yw monitro poblogaethau'n systematig wedi bod yn bosibl o ganlyniad i gyfyngiadau technegol. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y boblogaeth ar Ynys Môn wedi cynyddu a'i bod yn sylweddol. Mae canolbarth Cymru yn sefydlog gyda phoblogaeth helaeth, ddwysedd isel, ac mae gan Goedwig Clocaenog boblogaeth isel, gyda chofnodion yng ngorllewin a dwyrain y goedwig.**<br><br>**Mae'n bwysig gweithio tuag at nodi methodoleg addas, gost isel ar gyfer monitro.** |

| | |
|---|---|
| **Cam 1.3** | **Sefydlu a chynnal cronfa ddata a llyfryddiaeth am wiwerod, a sicrhau bod y data ar gael i'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol**<br>Caiff cronfa ddata ar wiwerod ei sefydlu a'i defnyddio fel storfa ganolog ar gyfer yr holl gofnodion o wiwerod (gwybodaeth o arolygon a chofnodion achlysurol). Bydd hyn yn sicrhau bod cofnodion a mapiau dosbarthiad yn cael eu diweddaru a'u bod ar gael i amrediad o sefydliadau a grwpiau. |
| Cynnydd | Mae adroddiadau am weld gwiwerod coch yn cael eu rheoli gan brosiectau unigol a'u rhannu â chanolfannau cofnodion lleol fel sy'n briodol. Mae gan Bartneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru a BASC wefannau ar gyfer adrodd am weld gwiwerod coch. |
| Cyfyngiadau | Anawsterau o ran cadarnhau adroddiadau am weld gwiwerod coch. |
| Gofynion yn dyfodol | Cynnal y gwefannau ar gyfer adrodd am weld gwiwerod coch a pharhau i y annog y cyhoedd i adrodd am eu gweld. |
| **Cryndodeb** | **Cam gweithredu parhaus. Mae Porth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol wedi cael ei ddisodli gan Atlas Cymru Fyw newydd.** |

## 2. Prif safleoedd ar gyfer gweithredu cadwraethol

**I sicrhau y defnyddir adnoddau'n effeithiol, bydd gweithredu cadwraethol er mwyn gwarchod gwiwerod coch yng Nghymru'n canolbwyntio i ddechrau ar y safleoedd yr ystyrir mai nhw fydd y cryfaf yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae gwiwerod coch yn cael eu gwarchod yn gyfreithiol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a dylai rheolwyr coedwigoedd ystyried anghenion gwiwerod coch ar bob safle lle maent yn bresennol.**

| | |
|---|---|
| **Cam 2.1** | **Cytuno ar brif safleoedd i Gymru**<br>Mae'r meini prawf ar gyfer nodi safleoedd â blaenoriaeth ar gyfer gwiwerod coch, a baratowyd gan Grŵp Gwiwerod Coch y DU, wedi'u haddasu i'w defnyddio yng Nghymru. Mae asesiad cychwynnol wedi'i gwblhau ac mae tri phrif safle ar gyfer y wiwer goch wedi'u nodi (Ynys Môn, Clocaenog a'r canolbarth). |
| Cynnydd | Tri phrif safle yn unig sydd wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol. |
| Cyfyngiadau | Canolbarth Cymru – mae ei gydnabod yn ffurfiol fel prif safle wedi cael effaith eithaf cyfyngedig ar allu partneriaid i ryddhau adnoddau i gynorthwyo yn y gwaith o gyflawni cadwraeth. |
| Gofynion yn y dyfodol | Dylid parhau i adolygu ffiniau safleoedd wrth i boblogaethau ledaenu. |
| **Crynodeb** | **Mae'r prif safleoedd wedi cael eu sefydlu'n dda, er y gellid mireinio ffiniau yn y dyfodol gyda rhagor o dystiolaeth.** |

| | |
|---|---|
| **Cam 2.2** | **Adolygu'r rhestr o brif safleoedd**<br>Caiff yr asesiadau o'r prif safleoedd eu hadolygu o dro i dro er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i statws y poblogaethau gwiwerod coch neu unrhyw wybodaeth newydd sydd ar gael. |
| Cynnydd | Nid oes unrhyw dystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg sy'n awgrymu y dylid gwneud unrhyw newidiadau i'r tri phrif safle y cytunwyd arnynt. |
| Cyfyngiadau | |
| Gofynion yn y dyfodol | |
| **Crynodeb** | **Dylid cadw'r opsiwn i adolygu'r prif safleoedd.** |

### 3. Diogelu poblogaethau gwiwerod coch

Mae angen i weithredu cadwraethol i ddiogelu gwiwerod coch ar safleoedd ar y tir mawr ganolbwyntio ar sicrhau bod cynefin addas i gynnal poblogaethau hyfyw o wiwerod coch ac eto peidio â denu gwiwerod llwyd. Bydd angen i bob prif safle fod â chynllun rheoli y mae'r holl dirfeddianwyr wedi cytuno arno ac sy'n nodi manylion y gweithredu sydd ei angen i gynnal poblogaeth hyfyw.

| | |
|---|---|
| **Cam 3.1** | **Adolygu a chyflwyno sylwadau ar gynlluniau rheoli coedwigoedd**<br>Mae mabwysiadu cynlluniau coedwigol sy'n sicrhau cyfuniad priodol o rywogaethau coed, oedran coed a strwythur cellïoedd yn y tymor hir yn hanfodol i ddiogelu poblogaethau gwiwerod coch. Lle mae gwiwerod llwyd yn dal i fod yn fygythiad, y flaenoriaeth yw darparu cynefin o ansawdd da i wiwerod coch sydd ar yr un pryd yn gwneud y cynefin mor anaddas ag sy'n bosibl i wiwerod llwyd. Mae adolygiadau o Gynlluniau Dylunio Coedwigoedd ar gyfer Ystad Goetir y Cynulliad, a gwaith cynllunio rheoli Coetiroedd Gwell i Gymru ar gyfer coetiroedd preifat, yn cynnig cyfle i sicrhau y caiff coetiroedd eu rheoli'n effeithiol. Darperir cyngor i gynllunwyr Rhanbarthau Coedwigoedd a chynllunwyr rheoli Coetiroedd Gwell i Gymru ar dechnegau rheoli sy'n arfer da. |
| Cynnydd | Mae'r arweinwyr prosiect ar gyfer pob un o'r prif safleoedd wedi rhoi rhywfaint o fewnbwn i'r gwaith o gynllunio rheoli coedwigoedd ar gyfer eu safle. Yng Nghoedwig Clocaenog a chanolbarth Cymru, ymgymerwyd â phrosiectau ar wahân i adolygu'r anghenion rheoli coedwigoedd ar gyfer gwiwerod coch ar y safleoedd hynny. Mae'r gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiadau hynny'n parhau, er y bu rhai cyfyngiadau yng nghanolbarth Cymru. Gwnaeth Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru lansio cynllun rheoli prif safleoedd pum mlynedd yn 2017, ar ôl proses ymgynghori â rheolwyr yr holl goedwigoedd mawr ar y prif safle. Ar Ynys Môn, mae trafodaethau'n parhau mewn perthynas â rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ar yr ynys.<br>Mae cysylltu â Choetiroedd Gwell i Gymru wedi bod yn parhau, ond cafodd y cynllun ei ymgorffori yn rhaglen Glastir yn 2011. Nid yw Rheoli Coetir Glastir yn derbyn ceisiadau newydd ar hyn o bryd. Mae system rybuddio am wiwerod coch ar waith ar gyfer Creu Coetir Glastir i sicrhau nad yw cynllunio amhriodol yn digwydd ar y prif safleoedd. |
| Cyfyngiadau | • Mae amser staff y prosiect yn cael ei gyfyngu i fewnbynnu cyngor parhaus. Mae gan gwmnïau coedwigaeth flaenoriaethau eraill.<br>• Newidiadau i'r system cynllunio coedwigoedd yn Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>• Mae'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru wedi dod i ben a bydd contractau cyfredol sydd ar waith o dan gynllun olynol Rheoli Coetir Glastir yn dod i ben o fewn 12–24 mis, gan orffen cyllid ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd mewn coedwigoedd a reolir. |
| Gofynyion yn y dyfodol | • Dilyn y broses ymgynghori a chynhyrchu'r cynlluniau rheoli prif safleoedd, gan gynnwys cymaint o reolwyr coedwig ag y bo modd.<br>• Bydd gallu'r bartneriaeth i ddylanwadu ar gynlluniau rheoli adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ffactor allweddol. |
| **Crynodeb** | **Bu ymgysylltiad parhaus â'r broses cynllunio coedwigoedd. Fodd bynnag, mae sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi arwain at newidiadau i'r gweithdrefnau cynllunio coedwigoedd ac at gyflwyno Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd. Bydd angen parhaus i ddylanwadu ar reoli coedwigoedd ar y prif safleoedd, ond mae angen eglurder ynglŷn â'r dull gorau ar gyfer gwneud hynny.** |

| | |
|---|---|
| Cam 3.2 | **Cytuno a gweithredu cynlluniau rheoli gwiwerod coch ar gyfer y prif safleoedd**<br>Bydd rheoli'r prif safleoedd a'u clustogfeydd cysylltiedig yn effeithiol yn dibynnu ar ddull partneriaeth cydgysylltiedig, yn enwedig lle mae nifer o dirfeddianwyr. Caiff hyn ei gyflawni'n fwyaf effeithiol trwy gytuno ar gynllun rheoli gwiwerod coch. Rhoddir cyngor i berchnogion coetiroedd preifat ynghylch manteisio ar gynlluniau grant perthnasol, e.e. Coetiroedd Gwell i Gymru neu Dir Gofal. |
| Cynnydd | Mae cynlluniau rheoli'n cael eu paratoi ar gyfer pob un o'r tri phrif safle:<br>Ynys Môn: mae cynllun ar gyfer y prif safle wedi cael ei ddrafftio gan Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru.<br>Canolbarth Cymru: mae adolygiad o anghenion cynefinoedd gwiwerod coch (Cartmel a Denman, 2012) wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y Cynllun Rheoli Prif Safleoedd 2017–22 mewn ymgynghoriad â'r holl reolwyr coedwig perthnasol.<br>Clocaenog: mae adroddiad 'ymgynghori' ar reoli coedwigoedd (Cartmel, 2009) wedi cael ei ddefnyddio'n sail ar gyfer cynllunio rheoli gydag argymhellion pellach mewn adolygiad o gadwraeth gwiwerod coch (Shuttleworth a Hayward, 2015). |
| Cyfyngiadau | Mae paratoi cynlluniau rheoli wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd diffyg amser staff neilltuedig a'r gallu i weithio gyda chwmnïau coedwigaeth preifat.<br>Mae gwaith gorfodol i gwympo llarwydd oherwydd haint Phythophthora ramorum hefyd wedi cael effaith ar gynlluniau rheoli. Yng nghanolbarth Cymru, nid  yw rhywogaethau pwysig o goed yn cael eu hailblannu, gan greu bygythiad posibl i gyflenwadau bwyd a chynefinoedd gwiwerod coch yn y dyfodol (diogelu at y dyfodol). Gallai adfer mawn agored, sy'n cynnwys tynnu'r gorchudd coed, fygwth y cynefinoedd sydd ar gael i wiwerod coch yng nghanolbarth Cymru, a bydd angen rhoi sylw i effaith colli adnoddau bwyd a chysylltedd yn barhaol. |
| Gofynion yn y dyfodol | Cwblhau cynlluniau rheoli prif safleoedd gyda phroses adolygu barhaus. |
| **Crynodeb** | **Mae diffyg amser staff wedi rhwystro gallu staff i ddatblygu cynlluniau rheoli, er bod adroddiadau contract wedi helpu i lywio'r broses. Mae cynlluniau rheoli cytunedig yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig.** |

| | |
|---|---|
| Cam 3.3 | **Rheoli gwiwerod llwyd ar brif safleoedd y wiwer goch**<br>Caiff rhaglen drapio ei sefydlu ar brif safleoedd y wiwer goch er mwyn gwaredu gwiwerod llwyd o ganol pob coedwig. Mae'n bosibl y caiff dulliau monitro â thiwbiau blew a chofnodion o weld gwiwerod eu defnyddio er mwyn targedu'r gwaith rheoli. Mae ymchwil yng Nghoedwig Clocaenog wedi dangos bod gwiwerod llwyd yn symud i mewn i'r goedwig o dro i dro er mwyn manteisio ar y cnwd hadau ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae'n bosibl yr ystyrir monitro cnydau conau er mwyn rhagweld pryd mae angen rhagor o waith rheoli yn y goedwig. |
| Cynnydd | **Canolbarth Cymru:**<br>• Mae Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru wedi cydlynu'r gwaith rheoli trwy gydol y prif safle, wedi'i hariannu trwy nifer o ffynonellau gwahanol.<br>• Mae cynllun benthyca trapiau wedi cael ei sefydlu ar brif safle canolbarth Cymru i alluogi a chefnogi tirfeddianwyr lleol a thrigolion i reoli gwiwerod llwyd.<br>• Mae Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn gweithio gyda rheolwyr coedwig a Cyfoeth Naturiol Cymru i annog rheoli gwiwerod llwyd mewn modd mwy cynhwysfawr ac effeithiol ar y safleoedd a reolir ganddynt.<br>**Clocaenog:**<br>• Mae gwaith rheoli wedi bod yn parhau'n flynyddol, wedi'i ariannu gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ddiweddarach, mae rhywfaint o waith wedi cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr trwy BASC.<br>• Mae cynllun benthyca trapiau yn cael ei sefydlu trwy brosiect Gwiwerod Coch Unedig.<br>**Ynys Môn:**<br>• Mae rheoli helaeth ac eang trwy gyfres o brosiectau a ariannwyd (gan gynnwys trwy gronfeydd Ewropeaidd a Chronfa Dreftadaeth y Loteri) wedi arwain at waredu gwiwerod llwyd o'r ynys yn 2013<br>• Mae gwaith rheoli bellach yn cael ei ganolbwyntio ar Wynedd i atal yr ynys rhag cael ei hailgytrefu.<br>Mae BASC wedi dechrau cynllun trapio cydgysylltiedig sy'n targedu aelodau lleol o gwmpas ac o fewn y prif safleoedd, gan gynnwys cynllun benthyca trapiau a chwrs hyfforddiant pwrpasol ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd. |
| Cyfyngiadau | • Mae'n hawdd i wiwerod llwyd ddod yn ôl i'r glustogfa, sy'n golygu bod ardaloedd sydd wedi cael eu clirio â thrapiau'n cael eu hailgytrefu o'r tu allan i'r glustogfa.  Mae'n anodd cynllunio trapio mewn modd strategol a defnyddio trapiau mor effeithiol ag y dymunid, oherwydd diffyg gwybodaeth am ddynamig poblogaethau gwiwerod llwyd a ffactorau eraill.<br>• Mae gan reolwyr coedwigoedd flaenoriaethau eraill, ac felly mae'r defnydd o gymorth grantiau a thrapio gwiwerod llwyd yn ysbeidiol. Diffyg dilyniant a/neu argaeledd cynlluniau grant rheoli coedwigoedd megis Glastir.<br>• Gall cynnwys pob tirfeddiannwr ar lefel dirwedd fod yn anodd ac mae hyn yn arwain at fylchau yn y rhwydwaith rheoli.<br>• Diffyg trapio systematig ym mhob ardal coedwigoedd.<br>• Mae'r ffaith fod cyllid gan gynllun Rheoli Coetir Glastir ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd wedi dod i ben yn fygythiad mawr. |

| | |
|---|---|
| Gofynion yn y dyfodol | • Mae angen nodi mecanweithiau amgen i gefnogi rheoli gwiwerod llwyd gan fod cyllid craidd parhaus yn annhebyg.<br>• Dylid ehangu cynlluniau benthyca trapiau, er y bydd angen cymorth parhaus ar wirfoddolwyr.<br>• Parhau i annog rheolwyr coedwig i ymgymryd â gwaith rheoli gwiwerod llwyd. |
| **Crynodeb** | **Hyd yn hyn, mae rheoli gwiwerod llwyd wedi llwyddo i ddiogelu poblogaethau gwiwerod coch ar y prif safleoedd. Mae'r dyfodol yn parhau i fod yn ansicr oherwydd cyfyngiadau, ond bydd sefydlu cynlluniau benthyca trapiau'n cefnogi gwaith rheoli parhaus. .** |
| **Cam 3.4** | **Sefydlu a gwarchod clustogfeydd i brif safleoedd y wiwer goch**<br>Er mwyn rhwystro gwiwerod llwyd rhag symud i mewn i safleoedd gwiwerod coch, bydd angen sefydlu clustogfa o gwmpas pob safle. Bydd maint y glustogfa yn dibynnu ar y math o gynefin a pha mor hawdd yw hi i wiwerod llwyd symud i mewn iddo. Bydd y gwaith rheoli yn canolbwyntio ar gynefinoedd y mae gwiwerod llwyd yn fwy tebygol o'u defnyddio fel llwybrau gwasgaru. Er mwyn rheoli'r clustogfeydd, bydd angen ymgysylltu â phartneriaeth ehangach o dirfeddianwyr a bydd angen cysylltiadau â'r gwaith o reoli gwiwerod llwyd ar gyfer amcanion eraill, e.e. diogelu coed. |
| Cynnydd | Mae gwaith rheoli o fewn clustogfeydd yn parhau naill ai trwy gynlluniau benthyca trapiau (canolbarth Cymru a Chlocaenog) neu reoli wedi'i ariannu (Ynys Môn/Gwynedd).<br><br>Mae BASC hefyd yn gweithredu cynllun benthyca trapiau fel 'clustogfa i'r glustogfa' i ategu cynllun benthyca trapiau Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru. |
| Cyfyngiadau | Gall cynnwys pob tirfeddiannwr ar lefel dirwedd fod yn anodd, sy'n arwain at fylchau yn y rhwydwaith rheoli, ac mae nifer y trigolion sy'n fodlon cymryd rhan yn y gwaith o reoli gwiwerod llwyd yn gyfyngedig. |
| Gofynion yn y dyfodol | Parhau i gefnogi ac ehangu'r cynlluniau benthyca trapiau trwy staff prosiect a BASC. |
| **Crynodeb** | **Mae'r prosiectau wedi llwyddo i gyflwyno gwaith rheoli gwiwerod llwyd yn y clustogfeydd. Mae cefnogi ac ehangu'r gwaith hwn yn parhau i fod yn hanfodol i ddiogelu'r prif safleoedd.** |

| | |
|---|---|
| **Cam 3.5** | **Cyngor ar ddatblygiadau**<br>Lle mae'n bosibl y bydd datblygiadau'n effeithio ar safleoedd gwiwerod Mae natur wledig Coedwig Clocaenog a chanolbarth Cymru yn golygu nad yw datblygu wedi peri bygythiad sylweddol i wiwerod coch. Ar Ynys Môn, mae datblygiadau'n fwy tebygol o fod mewn ardaloedd lle mae gwiwerod coch yn byw. Mae Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru yn darparu cyngor i swyddogion cynllunio lleol. |
| Cynnydd | Mae natur wledig Coedwig Clocaenog a chanolbarth Cymru yn golygu nad yw datblygu wedi peri bygythiad sylweddol i wiwerod coch. Ar Ynys Môn, mae datblygiadau'n fwy tebygol o fod mewn ardaloedd lle mae gwiwerod coch yn byw. Mae Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru yn darparu cyngor i swyddogion cynllunio lleol. |
| Cyfyngiadau | Dim |
| Gofynion yn y dyfodol | Sicrhau bod rhanddeiliaid prosiectau'n cael eu cydnabod ac yr ymgynghorir â nhw ar ddatblygiadau arwyddocaol. |
| **Crynodeb** | **Nid yw bwysau gan ddatblygiadau yn broblem arwyddocaol ar hyn o bryd ar gyfer diogelu'r wiwer goch, ond mae angen briffio pobl i fod ar eu gwyliadwriaeth.** |

## 4. Ymateb i bolisïau

| | |
|---|---|
| **Cam 4.1** | **Ymateb i ymgynghoriadau perthnasol**<br>Ceisio sicrhau bod anghenion gwiwerod coch yn cael sylw mewn dogfennau polisi perthnasol er mwyn sicrhau rheolaeth ffafriol yn y tymor hir trwy ymgynghoriadau ar ddefnydd tir (e.e. cynlluniau grant Coetiroedd Gwell i Gymru, Tir Gofal). |
| Cynnydd | Mae Fforwm Gwiwerod Cymru a phartneriaid prosiect wedi ymateb i ymgynghoriadau ar y rhaglen Glastir, ac wedi rhoi cyngor ynglŷn â gweithredu mesurau i ddiogelu gwiwerod coch.<br>Mae mesurau i ddiogelu'r wiwer goch wedi cael eu cynnwys, ond mae pryderon wedi cael eu lleisio trwy Fforwm Gwiwerod Cymru nad yw'r cynllun yn dilyn yr arferion gorau. |
| Cyfyngiadau | • Nid yw Rheoli Coetir Glastir yn derbyn ceisiadau ar hyn o bryd, felly mae risg y bydd rheolwyr coetir yn colli cyllid i'w cefnogi i reoli gwiwerod llwyd.<br>• Mae cysylltu â swyddogion perthnasol Glastir wedi bod yn broblemus, ond mae hyn wedi gwella'n ddiweddar. |
| Gofynion yn y dyfodol | Rhagor o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth ar gyfer gyfer diogelu gwiwerod coch trwy'r rhaglen Glastir neu unrhyw gynllun amaeth-amgylcheddol yn y dyfodol. |
| **Crynodeb** | **Cafwyd mynediad at gymorth ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd trwy Goetiroedd Gwell i Gymru ac, wedi hynny, Glastir. Fodd bynnag, mae gweithredu hyn wedi bod yn broblemus ac mae dyfodol y cynllun bellach i'w weld yn ansicr. Mae angen deialog barhaus â Llywodraeth Cymru.** |

## 5. Rheoli clefydau

Mae firws brech y wiwer yn glefyd heintus angheuol mewn gwiwerod coch. Cafwyd bod presenoldeb y clefyd wedi cynyddu cyfradd disodli'r wiwer goch gan y wiwer lwyd mewn rhannau o Loegr, a hynny'n sylweddol. Ymddengys bod nifer yr achosion o'r clefyd mewn gwiwerod coch yn gysylltiedig â lefel presenoldeb gwiwerod llwyd mewn ardal, sy'n awgrymu eu bod yn gysylltiedig â throsglwyddiad y clefyd, er nad yw'r dull o drosglwyddo wedi'i ganfod eto. Daethpwyd o hyd i wiwerod llwyd a oedd â gwrthgyrff i firws brech y wiwer yn holl safleoedd y wiwer goch yng Nghymru lle gwnaethpwyd profion.

| | |
|---|---|
| **Cam 5.1** | **Monitro nifer yr achosion o firws brech y wiwer mewn gwiwerod llwyd**<br>Bydd gwaed o garcasau gwiwerod llwyd yn cael ei anfon i'w ddadansoddi i chwilio am wrthgyrff i firws brech y wiwer. Bydd yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol yn cynghori ar y lefel samplu angenrheidiol. |
| Cynnydd | Mae samplau o Goedwig Clocaenog wedi cael eu dadansoddi ac maent yn dangos presenoldeb gwrthgyrff ar gyfer firws brech y wiwer mewn gwiwerod llwyd Yng nghanolbarth Cymru, nododd gwaith blaenorol bresenoldeb brech firws y wiwer, ac felly ni wnaed rhagor o waith samplu. Mae adenofirws hefyd wedi cael ei nodi fel bygythiad posibl i wiwerod coch, a chanfuwyd bod anifeiliaid y daethpwyd o hyd iddynt yn Ynys Môn/Gwynedd yn 2016 wedi cael eu heintio. |
| Cyfyngiadau | Mae argaeledd cyllid wedi cyfyngu ar y gallu i ddadansoddi |
| Gofynion yn y dyfodol | Mae angen rhagor o arweiniad ar flaenoriaethau ar gyfer gwaith gwyliadwriaeth clefydau yn y dyfodol, ynghyd â chyllid. |
| **Crynodeb** | **Mae angen parhaus i gynnal gwaith gwyliadwriaeth clefydau, ond mae angen rhagor o arweiniad, yn enwedig mewn perthynas â bygythiad clefydau sy'n dod i'r amlwg.** |
| **Cam 5.2** | **Sicrhau bod gweithgareddau'n lleihau'r perygl y caiff y clefyd ei drosglwyddo rhwng gwiwerod coch a gwiwerod llwyd**<br>Cynhyrchu a lledaenu canllawiau ar yr arferion gorau o ran technegau trapio, bwydo atodol a gweithgareddau eraill a all ddod â gwiwerod coch a gwiwerod llwyd i gysylltiad â'i gilydd. |
| Cynnydd | Mae canllawiau / gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd wedi cael eu cynhyrchu gan brosiectau. Yng nghanolbarth Cymru, gwnaed penderfyniad i beidio â defnyddio arolygon tiwbiau blew oherwydd y risg bosibl o drosglwyddo firws brech y wiwer rhwng rhywogaethau o wiwerod. |
| Cyfyngiadau | Mae gwrthdaro posibl rhwng yr angen i ddefnyddio abwyd â thrapiau camera / tiwbiau blew i nodi presenoldeb gwiwerod coch a'r risg o ddenu gwiwerod llwyd i'r un lleoliad. Mae canllawiau ar fonitro gwiwerod coch yn cynnwys rhagofalon rhag clefydau. Y cyngor cyfredol yw trapio'r wiwer lwyd cyn gynted ag y mae'n cael ei chanfod. |
| Gofynyion yn y dyfodol | Paratoi canllawiau ysgrifenedig ar gyfer monitro trapiau camera. |
| **Crynodeb** | **Mae'r arferion gorau ar gyfer hylendid trapiau yn cael eu dilyn gan yr holl brosiectau, ond mae angen canllawiau ychwanegol ar y risgiau sy'n gysylltiedig â thechnegau monitro.** |

| | |
|---|---|
| **Cam 5.3** | **Paratoi cynllun gweithredu ar firws brech y wiwer**<br>Os bydd achos o firws brech y wiwer, bydd angen gweithredu ar frys i sicrhau y caiff lledaeniad y clefyd ei atal ac y caiff gwiwerod sydd wedi'u heintio eu symud oddi yno a'u trin. Bydd paratoi cynllun gweithredu cytunedig yn sicrhau bod yr holl grwpiau yng Nghymru'n gwybod am y gweithdrefnau arfer gorau y dylid eu dilyn. |
| Cynnydd | Ni chynhyrchwyd cynllun gweithredu ar lefel Cymru gyfan, er bod gan brosiectau unigol eu strategaethau rheoli clefydau eu hunain. Ni wyddys am unrhyw achosion o frech firws y wiwer mewn gwiwerod coch, er bod adenofirws wedi cael ei ganfod yn Ynys Môn/Gwynedd. |
| Cyfyngiadau | Dim |
| Gofynion yn y dyfodol | Paratoi cynllun gweithredu cytunedig ar gyfer Cymru gyfan. |
| **Crynodeb** | **Mae angen ymgymryd â gwyliadwriaeth afiechyd yn barhaus, ond mae angen mwy o arweiniad yn enwedig mewn perthynas â bygythiadau clefyd sy'n dod i'r amlwg.** |

| | |
|---|---|
| **Cam 5.4** | **Ymchwil i firws brech y wiwer**<br>Hysbysu am yr angen i ariannu ymchwil i firws brech y wiwer a datblygu brechlyn, a hwyluso cydweithredu rhwng adrannau perthnasol gwahanol weinyddiaethau'r DU. |
| Cynnydd | Mae ymchwil yn cael ei symud yn ei blaen o dan Gytundeb Gwiwerod y DU. |
| Cyfyngiadau | Cyllid i gefnogi ymchwil. |
| Gofynion yn y dyfodol | |
| **Crynodeb** | **Mae angen symud gwaith ymchwil yn ei blaen ar lefel y DU.** |

## 6. Gwaith cynghori ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

| | |
|---|---|
| **Cam 6.1** | **Hwyluso a gwella cyfathrebu a rhannu arferion da rhwng ymarferwyr gwiwerod coch yng Nghymru a'r DU**<br>Bydd cyfathrebu effeithiol a rheolaidd rhwng gwahanol grwpiau sy'n gweithio i ddiogelu poblogaethau gwiwerod coch yn sicrhau y caiff profiad a mesurau effeithiol eu lledaenu'n effeithiol. |
| Cynnydd | Nid yw Grŵp Gwiwerod Coch y DU wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd, felly mae cyfathrebu ar lefel y DU yn gyfyngedig, er bod rhywfaint o waith da yn cael ei wneud trwy Gytundeb Gwiwerod y DU.<br>Mae prosiect Gwiwerod Coch Unedig yn cynnwys pob un o'r tri phrif safle yng Nghymru yn ogystal â Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac felly mae cyfleoedd i greu cysylltiadau a rhannu'r arferion gorau.<br>Mae BASC wedi creu canllawiau ar drapio ac maent yn cynnal cyrsiau trapio yn ogystal â digwyddiadau ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru a Phartneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru. |
| Cyfyngiadau | Mae'r arwynebedd mawr a dwysedd isel gwiwerod coch yng nghanolbarth Cymru yn golygu nad yw'r gwersi a ddysgwyd mewn ardaloedd eraill yn y DU lle mae gwiwerod yn byw bob amser yn berthnasol i safleoedd ar dir mawr Cymru. |
| Gofynion yn y dyfodol | • Parhau i weithio gyda Fforwm Gwiwerod Cymru a Chytundeb Gwiwerod y DU.<br>• Bydd prosiect Gwiwerod Coch Unedig yn cynnal 'Ffair Wybodaeth' i randdeiliaid flynyddol ar gyfer gweithwyr gwiwerod coch a gwirfoddolwyr, gan gynnwys un a gynhelir yng Nghymru. |
| **Crynodeb** | **Mae cyfathrebu a rhannu'r arferion gorau yn parhau i fod yn bwysig, yn enwedig wrth i syniadau a gwybodaeth ddatblygu.** |

| | |
|---|---|
| **Cam 6.2** | **Darparu cyngor ar ddiogelu'r wiwer goch i ddatblygwyr, coedwigwyr ac awdurdodau lleol**<br>Paratoi cyngor cyffredinol er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n gydnaws ag anghenion gwiwerod coch ac yn cydymffurfio â gofynion Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. |
| Cynnydd | Darperir cyngor yn ôl yr angen. Mae Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru wedi cynhyrchu taflen gyngor i reolwyr coedwig ar gyfer cyn ac yn ystod gweithrediadau. |
| Cyfyngiadau | Mae adnoddau ac amcanion rheoli o fewn sefydliadau partner yn cyfyngu ar y gallu i fabwysiadu'r arferion gorau. |
| Gofynion yn y dyfodol | Parhau i ddefnyddio canllawiau ar arferion a thaflenni cyngor. |
| **Crynodeb** | **Mae cyngor cyffredinol i randdeiliaid allweddol yn parhau i fod yn bwysig a bydd angen parhau i'w adolygu.** |

| | |
|---|---|
| **Cam 6.3** | **Sefydlu grwpiau gwiwer goch cymunedol ar gyfer y prif safleoedd**<br>Mae grwpiau cymunedol yn chwarae rhan hanfodol wrth hysbysu am bwysigrwydd diogelu gwiwerod coch yn yr ardal leol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys addysg, codi arian a chasglu cofnodion o weld gwiwerod coch a gwiwerod llwyd. Mae rhai unigolion yn fodlon cymryd rhan mewn rhaglenni rheoli gwiwerod llwyd. |
| Cynnydd | Mae ymgysylltu cymunedol yn parhau ym mhob un o'r tri phrif safle: Canolbarth Cymru – mae deg canolfan gwirfoddolwyr wedi cael eu sefydlu gyda phobl leol yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o reoli gwiwerod llwyd, monitro gwiwerod coch a hyrwyddo'r prosiect mewn digwyddiadau. Ynys Môn – mae Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru yn grŵp a arweinir gan y gymuned ac mae gwaith ymgysylltu ehangach yn parhau trwy brosiect Gwiwerod Coch Unedig.<br>Clocaenog – bu i brosiect MISE (Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy) ddechrau gwaith i ymgysylltu â phobl leol ac mae nifer o wirfoddolwyr wedi ymuno â'r gwaith monitro a thrapio. Mae gwaith i sefydlu grŵp cyfeillion bellach yn mynd rhagddo trwy brosiect Gwiwerod Coch Unedig.<br>Hefyd, mae BASC yn datblygu rhwydwaith o drapwyr o fewn ac o gwmpas prif safleoedd, ond mae llawer o aelodau BASC hefyd yn rheoli gwiwerod ledled Cymru fel rhan o'u gweithgareddau eu hunain. |
| Cyfyngiadau | Mae adnoddau cyfyngedig ar gyfer canolbarth Cymru a Choedwig Clocaenog a'u lleoliadau gwledig wedi arwain at niferoedd llai o aelodau'r cyhoedd yn cymryd rhan yn y gorffennol. . |
| Gofynion yn y dyfodol | Bydd prosiect Gwiwerod Coch Unedig yn cefnogi gwaith ymgysylltu cymunedol tan 2019, ond bydd angen cymorth parhaus ar wirfoddolwyr wedi hynny. |
| **Crynodeb** | **Bydd cynnwys cymunedau lleol yn parhau i fod yn elfen allweddol o'r gwaith o ddiogelu poblogaethau gwiwerod coch yn y dyfodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ym mhob un o'r tri phrif safle ond mae'n debyg y bydd yr angen am gymorth ar y grwpiau hyn yn parhau.** |

| | |
|---|---|
| **Cam 6.4** | **Hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o'r wiwer goch yng Nghymru a'r gwaith o'i diogelu**<br>Datblygu deunydd hyrwyddol ac addysgol dwyieithog. Mewn rhai sefyllfaoedd, gellir cynnig cyfleoedd i'r cyhoedd weld gwiwerod coch; bydd hynny'n eu galluogi i ddeall yn well y materion o bwys, e.e. gwe-gamera gwiwerod coch Ynys Môn. Annog y cyhoedd i gymryd rhan ac ymgysylltu â'r gwaith o ddiogelu'r wiwer goch trwy ddefnyddio'r cyfryngau. |
| Cynnydd | Mae pob prosiect yn cynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd, gan gynnwys gwefannau, tudalennau Facebook, taflenni a deunyddiau addysgol. Cynhyrchir gwybodaeth yn ddwyieithog. Mae'r Aelod Cynulliad ar gyfer Gorllewin Clwyd, Darren Millar, wedi cael ei benodi yn hyrwyddwr ar gyfer y wiwer goch. |
| Cyfyngiadau | Cyllid ar gyfer y dyfodol wedi'i sicrhau tan 2019 yn unig. |
| Gofynion yn y dyfodol | Parhau i hysbysu am fodolaeth gwiwerod coch yng nghanolbarth Cymru a'u hanghenion cadwraeth. |
| **Crynodeb** | **Dylai ymwybyddiaeth y cyhoedd o wiwerod coch yng Nghymru barhau i gynyddu trwy waith y prosiectau gwiwerod coch.** |

**7. Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cam 7.1** | **Cynnal trosolwg o waith ymchwil ar y wiwer goch a'r wiwer lwyd yn y DU a sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru yn derbyn sylw**<br>Adolygu'r llenyddiaeth  a'r gwaith ymchwil cyfredol a nodi unrhyw fylchau yn y wybodaeth y mae angen rhoi sylw iddynt. Darparu cyngor i Grŵp Gwiwerod Coch y DU a sefydliadau ymchwil ar anghenion a nodwyd o ran gwaith ymchwil i Gymru. |
| Cynnydd | Bu i'r cynrychiolydd o Forest Research ar Fforwm Gwiwerod Cymru ddarparu trosolwg o'r ymchwil gyfredol i wiwerod, a chyfle i nodi bylchau a rhoi adborth ar anghenion penodol. |
| Cyfyngiadau | Nid yw Forest Research bellach yn mynychu cyfarfodydd Fforwm Gwiwerod Cymru, er bod rhywfaint o fewnbwn yn cael ei roi trwy Gytundeb Gwiwerod Cymru. |
| Gofynion yn y dyfodol | Cael mynediad at gyllid a meithrin perthnasau â phrifysgolion i alluogi ymchwil bellach. |
| **Crynodeb** | **Mae mewnbwn i fyd ymchwil ar lefel Cymru wedi cael ei gyfyngu yn ddiweddar, felly mae angen sicrhau bod unrhyw anghenion ymchwil sy'n cael eu nodi'n cael eu bwydo i fforymau ar lefel y DU.** |
| **Cam 7.2** | **Adolygu ac asesu effaith bosibl y newid yn yr hinsawdd ar ddiogelu'r wiwer goch yng Nghymru**<br>Gan ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol, asesu effaith debygol y newid yn yr hinsawdd ar fioleg y wiwer a strwythur a chyfansoddiad coetiroedd yn y dyfodol. Adolygu'r effaith y gall y newidiadau hyn ei chael ar ddiogelu'r wiwer goch. |
| Cynnydd | Rhywfaint o adborth trwy Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector coedwigaeth mewn perthynas â chlefydau a phlâu coed cyfredol a rhai newydd, yn enwedig clefydau a phlâu sy'n effeithio ar binwydd a llarwydd. |
| Cyfyngiadau | Mae angen rhagor o ddeialog. |
| Gofynion yn y dyfodol | Bydd Fforwm Gwiwerod Cymru yn gweithio gyda'r arbenigwyr perthnasol i adolygu ac asesu effaith bosibl newid yn yr hinsawdd ar ddiogelu gwiwerod coch. |
| **Crynodeb** | **Mae angen sicrhau bod effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd ar y diwydiant coedwigaeth a'r canlyniadau ar gyfer gwiwerod coch yn cael eu deall yn llawn.** |